



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adroddiad thematig Estyn o
addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2
a Chyfnod Allweddol 3**

OGL

ISBN digidol 978 1 78903 596 4
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2018
WG30290

Teitl yr adroddiad:

Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3

Manylion yr adroddiad:

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad yn arfarnu safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau'r adroddiad yn gadarnhaol, gyda rhai enghreifftiau da o arfer gorau'n cael ei arddangos yn yr ysgolion dan sylw.

Mae crynodeb o nodweddion arfer da mewn safonau addysg grefyddol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn cynnwys:

- Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau addysg grefyddol a'u gwybodaeth, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu.
- Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau yn unol â'u hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ysgolion yn aml yn ailadrodd gwaith a gwmpaswyd yng nghyfnod allweddol 2.
- Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd.
- Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig rhesymau ystyriol am eu barn ac yn gwrandao ar safbwyntiau disgyblion a phobl eraill yn barchus. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn mynegi eu hymatebion personol yn hyderus. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gredoau ac arferion gwahanol grefyddau.
- Mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu ac ymestyn eu medrau llythrennedd, meddwl a rhesymu'n dda mewn gwersi addysg grefyddol.
- Mae arweinyddiaeth mewn addysg grefyddol gan benaethiaid ac arweinwyr pwnc yn dda ar y cyfan yn y mwyafrif o ysgolion.
- Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at wersi addysg grefyddol ac maent yn cyfrannu â diddordeb at drafodaethau grŵp a dosbarth. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Dyma rai problemau a nodwyd o fewn y prif ganfyddiadau:

- Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau i herio disgyblion mwy abl i ymestyn eu medrau ymhellach, neu ystyried syniadau crefyddol mwy cymhleth. Yng nghyfnod allweddol 3, mewn rhai ysgolion, nid yw'r addysgu yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da gan nad yw athrawon yn defnyddio ystod ddigon eang o weithgareddau a strategaethau ysgogol.
- Dim ond ambell ysgol sydd wedi meithrin cysylltiadau defnyddiol â sefydliadau sy'n ymwneud â chrefyddau heblaw Cristnogaeth.
- Mae ansawdd adborth athrawon i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn amrywio.
- Yng nghyfnod allweddol 2, ychydig iawn o athrawon yn unig sy'n defnyddio unrhyw ddeunydd safonedig i'w cynorthwyo i lunio barnau ar gyflawniad disgyblion mewn addysg grefyddol.
- Yng nghyfnod allweddol 2, anaml y maent yn arfarnu ansawdd dysgu disgyblion mewn addysg grefyddol, ac o ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ymwybyddiaeth gadarn o safonau disgyblion.
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, cyfle cyfyngedig iawn a gaiff athrawon i elwa ar ddysgu proffesiynol ar gyfer addysg grefyddol. Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cynnig ychydig iawn o ddysgu proffesiynol arbenigol mewn addysg grefyddol ar gyfer athrawon neu arweinwyr pwnc.
- Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn ymwybodol o'r CYSAG lleol ond maent yn ansicr o'i rôl a'i ddiben.
- Ychydig iawn o waith pontio a wneir rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner o ran addysg grefyddol.
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd Atal (Llywodraeth EM, 2015) o ran Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Prydain Fawr, 2015).
- Mae angen cyngor ar lawer o ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â mannau addoli.

Argymhellion:

Mae Estyn yn gwneud argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia, a Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion yn mynd ati i geisio gwella safonau addysgu a dysgu addysg grefyddol, cryfhau'r trefniadau pontio rhwng cyfnodau allweddol,

cynllunio'r cwricwlwm yn well, a rhoi gofyniad ar Lywodraeth Cymri i sicrhau bod addysg grefyddol yn cael ystyriaeth briodol wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Amlinellir argymhellion yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru isod.

Argymhellion:

Dylai ysgolion:

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni yn unol â'u gallu mewn addysg grefyddol

A2 Cryfhau trefniadau monitro a hunanarfarnu yng nghyfnod allweddol 2 i ganolbwyntio ar wella safonau a medrau disgyblion mewn addysg grefyddol

A3 Cryfhau trefniadau pontio fel bod profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu ar y rheiny yng nghyfnod allweddol 2 ac yn osgoi ailadrodd gwaith

A4 Arfarnu eu cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Dyniaethau.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

A5 Weithio gyda CYSAGau i ddarparu:

- a. cyfleoedd dysgu proffesiynol addas ar gyfer athrawon addysg grefyddol
- b. cymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer addysg grefyddol fel rhan annatod o ddatblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau
- c. cyngor i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â mannau addoli

A6 Sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

A7 Rhoi arweiniad i ysgolion ar leoedd addoli cymeradwy i ymweld â nhw

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 Weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau i sicrhau bod eglurder ynglŷn â lle addysg grefyddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r argymhellion a nodir yn adroddiad Estyn.

Mae'r argymhellion, sydd ar gyfer consortia ac ysgolion yn bennaf, yn cyfeirio at agweddau trawsgwricwlaidd a fydd yn elfen annatod o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd y rhain yn helpu gyda datblygu'r pedwar prif ddiben sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru hefyd.

I fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn:

Dylai ysgolion:

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni yn unol â'u gallu mewn addysg grefyddol.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet fod £3 miliwn wedi'i neilltuo i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol newydd sy'n cefnogi ein disgyblion Mwy Abl a Thalentog (MAT). Mae'r dull yn cynnwys adolygu'r canllawiau a'r fframwaith cyfredol ar gyfer ysgolion, ac ymchwil annibynnol i MAT i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau ar gyfer y dyfodol. Rydym ni'n ehangu'r Rhwydwaith Seren i gynnwys dysgwyr mwy abl iau hefyd.

Mae ein Cenhadaeth Genedlaethol yn ein hymrwymo i system addysg sy'n cyfuno tegwch â rhagoriaeth i sicrhau bod pob disgybl - yn cynnwys ein rhai mwyaf galluog - yn cyrraedd ei botensial ac yn cyflawni ar y lefel uchaf.

A2 Cryfhau trefniadau monitro a hunanarfarnu yng nghyfnod allweddol 2 i ganolbwyntio ar wella safonau a medrau disgyblion mewn addysg grefyddol

Rydym ni wrthi'n datblygu Fframwaith Gwerthuso a Gwella newydd a byddwn yn ystyried rôl addysg grefyddol, ynghyd ag amrywiaeth eang o feysydd fel rhan o'r fframwaith hwnnw. Ochr yn ochr â hyn, mae ESTYN a'r OECD yn cyd-arwain prosiect ar hunanwerthuso effeithiol mewn ysgolion. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynnig cyfle i gryfhau monitro a hunanwerthuso ar draws yr ysgol gyfan.

A3 Cryfhau trefniadau pontio fel bod profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu ar y rheiny yng nghyfnod allweddol 2 ac yn osgoi ailadrodd gwaith

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod trefniadau pontio effeithiol yn hollbwysig ar gyfer dilyniant a pharhad dysgu fel bod disgyblion yn cynnal ac yn adeiladu ar y momentwm a sefydlwyd yn yr ysgol gynradd.

Mae trefniadau pontio da yn bwysig er mwyn datblygu ac addysgu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n cefnogi parhad a dilyniant dysgu ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud o'r

ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Mae cronfa o astudiaethau achos wedi'i datblygu gan y 4 consortiwm sy'n rhoi enghreifftiau o arfer pontio da mewn ysgolion ledled Cymru. Anogir ysgolion i ddysgu o'r rhain wrth arfarnu eu trefniadau pontio eu hunain.

Yn y blynyddoedd nesaf, byddwn yn dechrau symud i ffwrdd o natur artiffisial cyfnodau a chamau a bydd dysgwyr yn datblygu ar gyflymder mwy naturiol. Bydd pontio yn canolbwyntio llai ar ddata a mwy ar wybodaeth am ddysgwyr unigol a'u taith ar hyd y continwmm dysgu. Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng athrawon cynradd ac uwchradd i drafod cryfderau a gwendidau dysgwyr ar bwyntiau pontio yn bwysicach nag erioed.

A4 Arfarnu eu cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Dyniaethau

Mae rhwydwaith o ysgolion arloesi yn elfen greiddiol o broses datblygu'r cwricwlwm. Mae'r ysgolion hyn yn ymgysylltu'n rheolaidd â'u hysgolion clwstwr a phartner i brofi syniadau a chynigion gydol y broses ddatblygu.

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar hynt datblygu'r cwricwlwm ar ei gwefan. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys y cynigion diweddaraf o grŵp arloesi'r Dyniaethau. Mae ar gael yn:

<https://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/curriculumwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy>

Mae'r diweddariadau hyn, ynghyd ag ymgysylltu rheolaidd ag ysgolion arloesi a chonsortia rhanbarthol, yn galluogi ysgolion i ddechrau arfarnu eu trefniadau cyfredol mewn perthynas â'r cwricwlwm sydd ar y gweill.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

A5 Weithio gyda CYSAGau i ddarparu:

- a. cyfleoedd dysgu proffesiynol addas ar gyfer athrawon addysg grefyddol
- b. cymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer addysg grefyddol fel rhan annatod o ddatblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau
- c. cyngor i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â manau addoli

Mae ystod eang o gymorth Dysgu Proffesiynol ar gael drwy gonsortia ac yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm presennol yn ogystal â'r rhaglen gymorth ar gyfer y gofynion Dysgu Proffesiynol gyda datblygiad y cwricwlwm newydd. Bydd tendr Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn mynd

yn fyw ar 04/06/18 i gomisiynu partneriaid ymchwil mewn SAU i gynorthwyo gyda dylunio a datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd, wedi'i gysylltu'n benodol â phob Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd y contract hwn yn parhau nes 2019 a bydd yn cynnwys ffocws manylach ar addysgeg unigryw sy'n gysylltiedig â disgyblaethau Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol drwy gylchoedd o ymgysyllti â'r rhwydwaith ysgolion ehangach.

Mae grŵp arloesi'r Dyniaethau'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddatblygu manylion y Maes Dysgu a Phrofiad. Ar ôl penderfynu ar y rhain, rhoddir ystyriaeth bellach i'r cymorth fydd ei angen ar ysgolion gan awdurdodau lleol a CYSAGau i werthuso'u cwricwlwm a chynllunio ar gyfer Addysg Grefyddol a'r Dyniaethau yn fwy cyffredinol.

A6 Sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Nid oes dyletswydd ar Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2015; fel y cyfryw, nid oes gennym sail uniongyrchol i 'sicrhau' bod pob arweinydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Fodd bynnag, nodwedd allweddol Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yw ei bod yn rhoi cyfrifoldeb ar ysgolion i roi ystyriaeth briodol, wrth arfer eu swyddogaethau, i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a herio syniadau eithafol sy'n cefnogi grwpiau terfysgol neu'n cael eu rhannu ganddynt. Felly byddem yn disgwyl i ALLau ac ysgolion gymryd camau rhesymol i annog cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwrthderfysgaeth (2015).

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau ar y ddyletswydd Prevent ar gyfer cyrff penodol yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys darparwyr addysg. Rydym ni wedi bod yn gweithio gydag Uned Gwrthderfysgaeth ac Eithafiaeth Cymru ar yr agenda PREVENT a gweithredu mesurau 'dan glo' mewn ysgolion gan sicrhau bod ganddynt weithdrefnau ar waith. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r consortia rhanbarthol, ALLau ac Uned Gwrthderfysgaeth ac Eithafiaeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer pob ymarferydd addysg ymhellach.

I gynorthwyo gyda gweithredu PREVENT mae Llywodraeth Cymru wedi:

- Cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'n dogfen ganllaw 'Gwrthsafiad a pharch – Datblygu cydlyniant cymunedol' <https://llyw.cymru/docs/dcells/publications/160111-respect-and-resilience-update-cy.pdf> Mae'n cynnwys pecyn cymorth hunanasesu cysylltiedig. Mae'r canllaw'n sicrhau bod gan ysgolion yng Nghymru wybodaeth i'w helpu i fodloni gofynion cyfreithiol Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.
- Datblygu'r Canllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, canllaw Llywodraeth Cymru ar rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol o dan

Ddeddf Addysg 2002:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>

- Datblygu gwefan HWB – dysgu digidol ar gyfer Cymru, i gynnwys parth e-ddiogelwch sy'n cynnwys adnoddau, dolenni, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr addysg proffesiynol ac sy'n hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o'r rhyngwyd gan bawb.

A7 Rhoi arweiniad i ysgolion ar leoedd addoli cymeradwy i ymweld â nhw.

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer awdurdodau lleol a chonsortia ac rydym yn cytuno â'r cynnwys ar y cyfan. Bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu i gonsortia rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol i dynnu sylw at yr argymhelliad hwn.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 Weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau i sicrhau bod eglurder ynglŷn â lle addysg grefyddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Fel yr amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus, bydd Addysg Grefyddol yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Mae grŵp arloesi'r Dyniaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ag arbenigedd pwnc o ysgolion o bob cwr o Gymru, wedi bod yn datblygu cyfres o ddatganiadau Beth sy'n Bwysig ar gyfer y Dyniaethau. Yn ystod y gwaith hwn mae'r grŵp wedi ystyried nifer o adroddiadau a mewnbwn arbenigwyr wrth baratoi'r datganiadau a'r rhesymau ynghlwm wrthynt.

Mae'r datganiadau Beth sy'n Bwysig drafft yn cysylltu â phedwar diben y cwricwlwm newydd ac yn cyfeirio at wybodaeth, sgiliau a phrofiadau allweddol y pynciau a'r disgyblaethau sydd wedi'u cynnwys ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, yn cynnwys Addysg Grefyddol.

Yn ystod y misoedd i ddod, bydd grŵp arloesi'r Dyniaethau yn datblygu rhagor ar y manylion i gyd-fynd â phob datganiad Beth sy'n Bwysig..

Mae grŵp arloesi'r Dyniaethau'n cael ei arwain mewn partneriaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr consortia rhanbarthol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Chymdeithas CYSAGau Cymru ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â CYSAG pob Awdurdod Lleol hefyd i ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru .

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol – yn cynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau – i fanylu ar y berthynas rhwng Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac Addysg Grefyddol yn lleol.

Manylion cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan Estyn ar 12 Mehefin 2018 a gellir cael hyd iddo drwy'r ddolen ganlynol: www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig